**CYFARWYDDWR CODI ARIAN**
**DISGRIFIAD SWYDD**

**Lleoliad:** Hybrid / Bangor / Aberduna

**Yn atebol i:** Prif Swyddog Gweithredol

**PWRPAS CYFFREDINOL Y SWYDD**

Cyflawni twf incwm uchelgeisiol a chynaliadwy wrth ddyfnhau ymwneud y gynulleidfa a gwella proffil y sefydliad - gan sicrhau bod gennym yr adnoddau, y perthnasoedd a'r enw da sydd eu hangen i gyflawni ein cenhadaeth ar raddfa fawr.

**CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL**

**Arweinyddiaeth a Chyflawni Strategol**

- Datblygu a gweithredu Strategaeth Incwm ac Ymgysylltu sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r sefydliad, gan gyflawni twf incwm uchelgeisiol a chynaliadwy
- Cyfrannu at strategaeth a pherfformiad cyffredinol y sefydliad fel aelod o'r Uwch Dîm Arwain
- Nodi ac arwain cyfleoedd, partneriaethau a chynigion buddsoddi mawr sy'n cynhyrchu incwm
- Bod yn rheolwr llinell uniongyrchol ar tua 4 i 6 arweinydd tîm, gan ddarparu arweinyddiaeth i sicrhau tîm arloesol sy'n perfformio ar lefel uchel gydag atebolrwydd clir, diwylliant cadarn, ac amcanion cydlynol
- Datblygu a rheoli cyllidebau, dangosyddion perfformiad allweddol ac adrodd ar berfformiad, gan ddarparu gwybodaeth strategol glir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau
- Gweithredu fel uwch lysgennad a llefarydd, gan feithrin dylanwad a phroffil ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol
- Dirprwyo ar ran y Prif Swyddog Gweithredol ac uwch arweinwyr eraill yn ôl yr angen.

**Cynhyrchu Incwm a Chodi Arian**

- Sbarduno twf ac arallgyfeirio ar draws pob ffrwd incwm, gan gynnwys y canlynol:
  - Ymddiriedolaethau, sefydliadau a grantiau
  - Partneriaethau corfforaethol a nawdd
  - Cyfranwyr mawr ac unigolion sydd â gwerth net uchel
  - Rhoddion ac aelodaeth unigol
  - Gwaddol a rhoddion er cof
  - Apeliadau ac ymgyrchoedd
  - Cyllid natur a chyllid arloesol
  - Is-gwmni masnachu
- Creu a chynnal cyflenwad cryf ac amrywiol o gyllid gyda rhagolygon ac adrodd cadarn
- Arwain datblygiad achosion cadarn ar gyfer cefnogaeth, ceisiadau a chynigion codi arian
- Ymgorffori siwrneiau cefnogwyr rhagorol i sicrhau’r caffael, y cadw a’r gwerth am oes gorau posib
- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau codi arian, y GDPR ac arfer gorau'r sector
- Manteisio ar sianeli digidol a gwybodaeth data i sicrhau’r perfformiad a’r elw ar fuddsoddiad gorau posib

**Cynulleidfa, Brand a Chyfathrebu**

- Arwain dull integredig o farchnata, cyfathrebu ac ymgysylltu â'r gynulleidfa sy'n cryfhau'r brand ac yn sbarduno cefnogaeth
- Creu naratif sefydliadol glir a chymhellol sy'n ysbrydoli pobl i weithredu dros natur
- Goruchwylio'r ddarpariaeth ar draws pob sianel (digidol, cysylltiadau cyhoeddus, ymgyrchoedd, cyhoeddiadau), gan sicrhau cysondeb, creadigrwydd ac effaith
- Datblygu ymgyrchoedd wedi'u targedu i dyfu cynulleidfaoedd, incwm a dylanwad
- Defnyddio gwybodaeth a data cynulleidfaoedd fel sail i strategaeth a gwella ymgysylltu
- Gwarchod a gwella enw da'r sefydliad, gan gynnwys goruchwylio cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu argyfwng

**Aelodaeth ac Ymgysylltu gan Gefnogwyr**

- Meithrin sylfaen aelodaeth gref, gyfranogol sy'n sail i gefnogaeth ac incwm hirdymor
- Esblygu'r cynnig aelodaeth a chynhyrchion cefnogwyr yn barhaus i barhau i fod yn berthnasol ac yn gymhellol
- Cryfhau ymgysylltu’r cefnogwyr drwy brofiadau, cyfathrebu a stiwardiaeth ragorol

**Partneriaethau, Dylanwad a Chydweithredu**

- Datblygu partneriaethau strategol gyda busnesau, cyllidwyr a rhanddeiliaid i ddatgloi cyfleoedd ac incwm newydd
- Cydweithredu ar draws y sefydliad i sicrhau bod y cynhyrchu incwm yn cyd-fynd â chyflawni ac effaith rhaglenni
- Ymgysylltu'n weithredol â mudiad ehangach yr Ymddiriedolaethau Natur i sicrhau’r effaith orau bosib ar y cyd a chyfleoedd a rennir
- Creu rhwydweithiau sy'n cynyddu dylanwad, eiriolaeth a chefnogaeth i fyd natur

**Llywodraethu, Diwylliant a Chydymffurfiaeth**

- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl reoliadau, polisïau a safonau arfer gorau perthnasol
- Hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y tîm a'r sefydliad ehangach
- Meithrin diwylliant cydweithredol, perfformiad uchel gyda ffocws ar welliant parhaus ac arloesedd
- Arwain, datblygu ac ysbrydoli timau drwy reolaeth effeithiol, hyfforddi a chyfeiriad clir
- Arweinydd sefydliadol ar gyfer cydymffurfiaeth GDPR

**Mae'r holl staff yn llysgenhadon i'r sefydliad, yn fewnol ac yn allanol, a disgwylir iddynt weithredu’n gwbl broffesiynol bob amser. Mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â rheolau, polisïau a gweithdrefnau sefydliadol fel y'u nodir yn llawlyfr y staff, mabwysiadu arferion gwaith sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, pennu a chynnal safonau personol uchel o effeithlonrwydd a gofal cwsmeriaid, a meithrin diwylliant o 'allu gwneud' yn seiliedig ar berchnogaeth, blaengaredd, gwaith tîm a chyfnewid gwybodaeth.**

**CYFARWYDDWR CODI ARIAN**
**MANYLEB Y PERSON**

**Rhinweddau Personol**
**Hanfodol**
- Cyfathrebwr hyderus, credadwy ac ysbrydoledig sy'n gallu dylanwadu ar lefel uwch
- Arddull arwain gydweithredol sy'n meithrin gweithio traws-sefydliadol
- Meddylfryd strategol a blaengar gyda'r gallu i herio'n adeiladol
- Ymrwymiad cadarn i fyd natur, cadwraeth ac effaith amgylcheddol
- Gwydn a hyblyg mewn amgylcheddau cymhleth a newidiol
- Dull creadigol o weithredu, sy'n canolbwyntio ar atebion ac yn entrepreneuraidd
- Deallusrwydd emosiynol cadarn a’r gallu i feithrin perthnasoedd
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

**Cymwyseddau Allweddol**
**Hanfodol**
- Arweinyddiaeth strategol a gwneud penderfyniadau sefydliadol
- Datblygu a chyflwyno strategaethau twf incwm
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid lefel uchel a dylanwadu arnynt
- Enw da am sbarduno newid sefydliadol a gwella perfformiad
- Y gallu i adeiladu ac arwain timau sy'n perfformio'n dda
- Craffter masnachol cadarn a dull o weithredu sy'n cael ei sbarduno gan ganlyniadau
- Defnydd o ddata a gwybodaeth ddigidol fel sail i berfformiad

**Profiad**
**Hanfodol**
- Profiad o uwch arweinyddiaeth
- Llwyddiant clir mewn cynhyrchu incwm aml-ffrwd
- Profiad o arwain swyddogaethau marchnata, cyfathrebu neu ymgysylltu â chynulleidfaoedd
- Profiad o ddatblygu a chyflwyno strategaeth ar lefel sefydliadol
- Profiad o reoli cyllidebau sylweddol, targedau incwm a pherfformiad ariannol
- Llwyddiant clir wrth adeiladu a rheoli partneriaethau gwerth uchel
- Profiad o weithio gyda Byrddau a strwythurau llywodraethu

**Dymunol**
- Profiad o weithio yn y sector cadwraeth, amgylcheddol a / neu elusennol

**Gwybodaeth a Sgiliau**
**Hanfodol**
- Sgiliau arwain a rheoli pobl rhagorol, gan gynnwys hyfforddi a datblygu
- Dealltwriaeth gref o egwyddorion codi arian, rheoleiddio ac arfer gorau
- Gwybodaeth am farchnata, strategaeth brand a chyfathrebu
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar hynod ddatblygedig
- Dealltwriaeth gadarn o arian, gan gynnwys cyllidebu, rhagolygon ac adrodd
- Dealltwriaeth o ddiogelu data, GDPR a chydymffurfiaeth
- Trafodwr medrus gyda galluoedd dylanwadu a datrys problemau cadarn
- Y gallu i greu, cynnal a manteisio ar berthnasoedd a rhwydweithiau strategol

**Dymunol**

- Dealltwriaeth o gyllid natur neu fodelau cyllido arloesol
- Gwybodaeth am yr iaith Gymraeg ac empathi â'r iaith a diwylliant a threftadaeth Cymru.

| |
|---|
| *Gwybodaeth at ddibenion yswiriant yn unig:*<br>*Canran o dasgau clerigol o gymharu â thasgau maniwal yn y rôl hon:*<br>*100% clerigol / 0% maniwal* |
| |